

Pecyn Adnoddau - Tasg Etholiad

Canllawiau

Yn gweithio mewn grwpiau mi fyddwch yn creu maniffesto i'ch plaid wleidyddol eich hun. Maniffesto yw rhestr o bethau rydych yn addo'i wneud pe baech yn cael eich ethol fel y blaid orau.

Dylai'r maniffesto gynnwys o leiaf 5 addewid wedi ei selio ar faes/meysydd pwnc ar y cardiau pwnc yn eich pecyn. (Adnodd A1-A5)

Cyn dechrau

Ethol Cadeirydd - cyfrifol am ddyrannu swyddi.

Bydd angen i bawb yn eich plaid **ddadlau** a **thrafod** syniadau ar gyfer y maniffesto yn defnyddio y meysydd pynciau ar y cardiau pwnc. Y ffordd decaf i ddewis y syniadau gorau yw pleidleisio. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gynnal pleidleisiau. Unwaith rydych wedi penderfynu ar eich syniadau mae'n rhaid i'r Cadeirydd ei hysgrifennu ar y daflen waith *Creu Maniffesto* sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn.

Unwaith mae'r maniffesto wedi ei gwblhau, rhaid i'r grŵp feddwl am enw i'r blaid, slogan a logo.

Cadeirydd i ddyrannu swyddi er mwyn cwblhau adnoddau ymgyrch;

–Unigolyn i baratoi araithe yn cynnwys enw'r blaid, slogan a maniffesto.

–Unigolion i wneud posteri ymgyrch yn cynnwys enw'r blaid, slogan, logo a maniffesto. Hefyd pam y dylai bobl bleidleisio amdanoch chi.

–Unigolion i wneud rhoŷetau yn cynnwys logo ac enw'r blaid. (Adnodd A8 a templed roŷet)

Pleidleisio

Unwaith mae pob grŵp wedi cyflwyno'i maniffesto fydd cyfle i chi bleidleisio.

Bydd y bleidlais yn un rhydd a theg lle rydych chi fel unigolyn yn dewis y blaid hoffech chi bleidleisio amdano.

Nid oes rhaid i chi bleidleisio am eich plaid eich hun (mi allwch chi os ydych yn meddwl bod eich plaid chi hefo'r syniadau gorau) ac nid oes rhaid i chi ddweud wrth unrhyw un pwy rydych wedi pleidleisio amdano.

Cwbl sydd rhaid i chi ei wneud yw rhoi **X** yn ymyl enw / lliw'r blaid hoffech bleidleisio amdano.



Adnodd A1 Addysg

Mae'r Cynulliad yn awyddus fod pobl ifanc yng Nghymru yn derbyn addysg o safon uchel.

Sut yr ydych chi'n credu y gall hyn gael ei gyflawni?



Atal bwlio

Mwy o chwaraeon

Mwy o hyfforddiant galwedigaethol

Gwaith cwrs

Mwy o gyfrifiaduron

Cyngor gyrfau

**Mwy o nyrsus ysgol a chyngor
iechyd**

Clybiau gwaith cartref

Diogelwch ar fysiau ysgol

**Gwell adnoddau ar gael
amser egwyl ac amser cinio**

Dewisiadau bwyd iachus



**Mae'r Cynulliad yn awyddus
i warchod yr amgylchedd naturiol
yng Nghymru**

**Sut ydych chi'n credu y gall hyn gael
ei gyflawni?**



Adnodd A2
Yr Amgylchedd

Ffermio organig

Gwella trafndiaeth gyhoeddus

Mwy o finiau sbwriel

Ynni adnewyddol

Mwy o ailgylchu

**Tal tagfa traffig yn ein trefi
a dinasoedd**

Ffermydd gwynt

**Hyrwyddo bwyd wedi
ei gynhyrchu'n lleol**

Parciau



Adnodd A3 Byw'n iach

Mae'r Cynulliad yn awyddus bod
pobl ifanc yng Nghymru yn byw
bywyd iach ac yn osgoi defnyddio
cyffuriau ac ati

Sut ydych chi'n credu y gall hyn gael
ei gyflawni?



Adnodd A3 Byw'n iach

Mwy o ymgyrchoedd atal ysmygu

Mwy o ganolfannau adferiad
o ddefnyddio cyffuriau

Mwy o nyrsus ysgol

Addysg am fwyta'n iach

Addysg am effeithiau
camddefnyddio cyffuriau
ac alcohol

Atal gor yfed

Mwy o ganolfannau cynghori a
chyingor i bobl ifanc allu galw heibio



Mae'r Cynulliad yn awyddus i roi cyfle i bawb yng Nghymru i gymryd rhan mewn chwaraeon, a mwynhau eu manteision, beth bynnag eu cefndir neu eu gallu

Sut ydych chi'n credu y gall hyn gael ei gyflawni?



Adnodd A4 Chwaraeon

Denu pencampwriaethau'r byd
i Gymru

Hyrwddo chwaraeon 'eithriadol'

Hyfforddiant gan arbenigwyr

Mwy o ddewis o chwaraeon yn
yr ysgol

Gwella ein parciau a'r meysydd
chwarae


Mwy o barciau sglefrio

Cyfloedd i bob gallu

Mwy o lwybrau beicio

Mynediad am ddim i ganolfannau
chwaraeon i rai o dan 16oed

Mwy o offer chwaraeon mewn
canolfannau hamdden/ysgolion



Adnodd A5

Mae'r Cynulliad yn awyddus i sicrhau
fod cymunedau Cymru yn ddiogel
ac yn ffynnu.

Sut ydych chi'n credu y gall hyn gael
ei gyflawni?



Adnodd A5

Gwella clybiau ieuenctid

Camerau CCTV

Arafu traffig


Diogelu caeau chwarae a pharciau

Codi mwy o dai fforddiadwy

Sicrhau cyswllt bandllydan

Clybiau i'r henoed

Sicrhau fod digon o swyddi



Adnodd A8 Creu Roŷet

Mae gwisgo eich rosét yn lliw eich plaid yn ffordd grêt o ddangos eich cefnogaeth i'ch plaid a'i hymgeisydd. Dylai pob aelod o blaid gael un!

Dyma beth fydd ei angen arnoch i wneud rosét:

Templed o rosét.

Papur lliw

Pennau ffelt lliw

Siswrn

Glud

Pin cau neu felcro.

01 Copïwch y templed ar bapur lliw neu lliwiwch y siapiau gan ddefnyddio'r pennau ffelt lliw neu baent

02 Torrwch allan y cylch lleiaf a rhowch logo eich plaid ac enw eich ymgeisydd arno.

03 Torrwch allan y siapiau eraill a gludwch ben lleiaf y siapiau bach i'r cylch mawr





04 Gludwch y ddau siâp hir (neu gallwch ddefnyddio rhuban) i gefn y cylch mawr

05 Gludwch y cylch bach i ganol y cylch mawr






06 Rhowch y pin cau neu'r felcro ar y cefn



Templed Rošet



Templed papur pleidleisio

<p>Pleidleisiwch am un ymgeisydd yn unig. Marciwch X yn y blwch.</p>			
1			
2			
3			
4			
5			



Creu Maniffesto

Maniffesto yw rhestr o syniadau rydych yn addo'i weithredu os ydych yn cael eich ethol fel y blaid wleidyddol orau.

Os cawn ein hethol mae y blaid hon yn addo:

01.

02.

03.

04.

05.

